

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Gwasanaethau Gwybodaeth
Information Services

BUDDSODDWR MEWN POBL

NEWYDDION GG

http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/isnews.asp

Rhagfyr 2007

Ceir yn y fersiwn printiedig hwn o Newyddion GG ond ychydig o'r eitemau newyddion yn llawn, ynghyd â nifer o gyflwyniadau byr i eraill a geir yn eu cyfanrwydd yn y fersiwn ar-lein. Gellir dilyn erthygl unigol naill ai drwy glicio ar y cyfeiriad, neu drwy http://www.inf.aber.ac.uk/news/isnews.asp. Ceir yno hefyd ôl-rifynnau ynghyd ag eitemau ac erthyglau diweddar nas ceir yn y fersiwn printiedig hwn.

Y Lolfa@Rosser

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn adolygu'r dulliau gorau o ddarparu gweithfannau cyfrifiadurol anffurfiol. Tra bod gweithfannau dysgu yn dal yn gofyn i ni fwyhau'r nifer o gyfrifiaduron/PCs sydd ar gael, nid dyna'r sefyllfa bellach mewn ardaloedd lle na ellir bwcio cyfrifiadur ymlaen llaw. Mae hyn, ynghyd â'r cynnydd yn y defnydd o liniaduron a'r system ddi-wifr, yn caniatáu i ni greu cynlluniau llai ffurfiol ar gyfer yr ystafelloedd. Dymunwn gynnig dull o weithio sy'n fwy hamddenol, ac sy'n caniatáu i bobl ddefnyddio eu cyfrifiaduron eu hunain yn rhwydd, yn ogystal ag annog gwaith grŵp. Yn dilyn trafodaethau, mae Gwasanaethau Gwybodaeth wedi bod ynghlwm wrth sawl menter dros yr haf.

Y fenter fwyaf cyffrous yw prosiect ar y cyd rhwng Gwasanaethau Gwybodaeth a Gwasanaethau Preswyl i greu gweithfan gyfrifiadurol hollol newydd yn yr hyn a elwid yn Far Rosser, ond a adwaenir bellach fel Y Lolfa@Rosser. Mae'r ardal hon, sydd ar agor bedair awr ar hugain y dydd, yn cynnig mannau eistedd cyfforddus sy'n cynnwys soffas, desgiau wedi eu gosod mewn clystyrau i ganiatáu gwaith grŵp cyfleus, a desg y gellir ei haddasu ar gyfer defnyddwyr anabl. Darperir gofod ar gyfer desgiau, gwifrau a rhwydwaith ar gyfer gliniaduron personol, a gellir defnyddio'r rhain hefyd yn yr ardaloedd eistedd anffurfiol trwy ddefnyddio'r gwasanaeth WiFi sydd ar gael.

Mae dau brosiect arall ar y gweill, ac er eu bod ar raddfa lai, gobeithiwn y cânt eu croesawu wrth iddynt ddarparu amgylchedd mwy hamddenol a hyblyg. Yn gyntaf, trwy bartneriaeth â'r Gwasanaethau Preswyl eto, mae'r dodrefn yn ystafell gyfrifiaduron Neuadd Pantycelyn yn cael eu newid er mwyn cynnig defnydd mwy hyblyg ohoni a chaniatáu i'r ardal gael ei thwtio yn gyffredinol. Yn ail, mae'r weithfan draddodiadol sydd ym mhen pellaf Llyfrgell Hugh Owen, ar lawr E yn edrych dros Ganolfan y Celfyddydau, wedi cael ei chlirio, a dodrefn newydd wedi eu gosod yno mewn modd mwy anffurfiol.

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r modd y mae pobl yn defnyddio'u gliniaduron pan maent mewn caffis gwe a mannau cyffelyb. Ar gyfer cynllunio yn y dyfodol, byddwn yn arolygu'r modd y defnyddir yr ardaloedd newydd hyn, yn ogystal ag asesu eu poblogrwydd. Mae nifer o brifysgolion yn cynnig cyfleusterau eang tebyg i'r rhain bellach, ac mae'n bwysig nad yw Aberystwyth ar ei hôl hi yn hyn o beth.

Jeremy Perkins, Isgyfarwyddwr Gwasanaethau Canolog TG
(jwp@aber.ac.uk)

Blackboard Cymraeg

Ers dechrau'r sesiwn academaidd presennol, mae Blackboard yn cynnig y dewis i staff a myfyrwyr logio ymlaen a phori eu cyrsiau yn Gymraeg. Wrth ddefnyddio'r 'Pecyn Iaith' Cymraeg a ddatblygwyd ym Mangor, gall pob defnyddiwr ddewis yr iaith sydd orau ganddynt (Cymraeg neu Saesneg) cyn cofnodi ei enw defnyddiwr a'i gyfrinair. Gall defnyddwyr weld botymau, dewislenni a chyfarwyddiadau Blackboard yn Gymraeg – cyfleuster sy'n ymestyn i weithgarwch y Panel Rheoli hefyd. Bydd y myfyrwyr yn gweld bod dewislenni cyrsiau bellach yn defnyddio labeli Cymraeg yn hytrach na rhai Saesneg. (Noder nad yw'r Pecyn Iaith yn cyfieithu dogfennau unigol; efallai hefyd y gwelwch rai geiriau neu ymadroddion Saesneg – ymddiheurwn ymlaen llaw am hyn; rydym yn cydweithio â darparwyr y rhyngwyneb i'w cywiro).

Credwn y bydd y datblygiad hwn yn gwella darpariaeth y Brifysgol ar gyfer e-ddysgu, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg – pwynt allweddol yn Strategaeth E-ddysgu'r Brifysgol. Mae cyflwyno Blackboard Cymraeg yn rhan o uwchraddio fersiwn Aberystwyth y system a wnaethpwyd dros yr haf. Mae'r uwchraddio wedi cyflwyno amrediad newydd o offer a nodweddion, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer ychwanegiadau pellach i'r system. Gellir canfod manylion pellach ar http://alto.aber.ac.uk/en/bb/helpsheets/enterprise_update.php. Gall staff sy'n dymuno gwybod mwy ynglŷn â defnyddio'r nodweddion newydd fel rhan o'u dysgu gysylltu â Thîm Blackboard (bb-team@aber.ac.uk) am fwy o wybodaeth.

Rydym yn ddiolchgar i Ganolfan Bedwyr a Gwasanaethau TG Prifysgol Bangor am eu gwaith yn datblygu'r Pecyn Iaith, a lansiwyd yn ffurfiol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst (www.bangor.ac.uk/news/full.php?Id=290).

Kate Wright, Swyddog Datblygu E-ddysgu (kaw@aber.ac.uk)

Newidiadau i Lyfrgell Hugh Owen

Cafodd rhai mannau yn Llyfrgell Hugh Owen eu huwchraddio yn ystod yr haf er mwyn hwyluso hygyrchedd, a manteisiwyd ar y cyfle hefyd i ailedrych ar leoliad gwasanaethau eraill. Mae'r lifft sydd yng nghanol y llyfrgell wedi cael ei uwchraddio er mwyn i'r rhai ag anabledd fedru gadael y llyfrgell yn gyflym mewn argyfwng, ac mae drysau awtomataidd newydd ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn abl i symud yn rhwydd wedi cael eu gosod ar lawr E ger mynediad yr hen lyfrgell. Gwnaed gwelliannau i garelau a chyfleusterau tai bach hefyd.

Ers blynyddoedd bellach rydym wedi neilltuo ardaloedd eang ar loriau E ac F fel mannau tawel ar gyfer astudio. Mewn ymateb i geisiadau gan ddarllenwyr am fwy o reolaeth sain, erbyn hyn rydym wedi neilltuo pen deheuol llawr F fel ardal dawel ar gyfer astudio, ac rydym hefyd wedi creu ardal newydd ger y cyfrifiaduron a'r opacs yng nghanol llawr F ar gyfer gwaith grŵp, lle mae mwy o sŵn yn cael ei ganiatáu. Rydym hefyd wedi uwchraddio'r weithfan ar ben deheuol llawr E er mwyn darparu cymysgedd o fannau astudio mwy atyniadol gyda dodrefn newydd, ac ymddengys bod defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi.

Rydym bellach yn arddangos llyfrau newydd a phapurau dyddiol ar lawr gwaelod y Llyfrgell (Llawr D) yn y gobaith y bydd y rhain o ddiddordeb i ddarllenwyr sy'n gallu taro i mewn am ychydig funudau rhwng dosbarthiadau. Rydym hefyd yn arbrofi gyda pheiriannau gwerthu yn Llyfrgelloedd Hugh Owen a Thomas Parry sy'n cynnig dewis cyfyngedig o ddiodydd a byrbrydau.

Bill Hines, Isgyfarwyddwr Gwasanaethau Llyfrgell a Chynghori (whh@aber.ac.uk)

Cadwrfa Ymchwil ar-Lein

Yn ystod y misoedd nesaf caiff cadwrfa ymchwil ar-lein Prifysgol Aberystwyth ei hail-lansio yn swyddogol fel gwasanaeth llawn o fewn GG, yn sgil ei llwyddiant fel cynllun peilot. Penodwyd Talat Chaudhri i swydd newydd lawn amser fel Ymgynghorydd Cadwrfa o ganol mis Medi (gyda nawdd JISC), â chifrifoldeb am ddatblygu ac am hybu'r gwasanaeth i'r adrannau academaidd. Bydd yn arddangosfa o allbwn deallusol y Brifysgol, fel rhan o strategaeth ymchwil gydgysylltiedig. Gobeithir bydd y gadwrfa'n cyfrannu'n sylweddol yn y tymor hir i broffeil ymchwil rhyngwladol ei staff academaidd a'i myfyrwyr ymchwil. Cedwir ymchwil academaidd gyhoeddedig ac e-draethodau ynddi yn bennaf. Proses syml yw hunanarchifo mewn casgliadau pwnc, ond cynigir gwasanaeth cyfryngedig yn ogystal. Mae hunaniaeth weledol newydd y gadwrfa dan ddatblygiad, ond ceir y tudalennau gwe cyfredol ar http://cadair.aber.ac.uk

Talat Chaudhri, Ymgynghorydd Cadwrfa (tac@aber.ac.uk)

Gwasanaethau Argraffu a Llungopïo Newydd

Mae'r gwasanaeth argraffu a llungopïo wedi newid yn sylweddol y tymor hwn ac yn ein galluogi i wella'r gwasanaeth drwy gynnig mwy o beiriannau sy'n argraffu mewn lliw ac ar bapur A3. Mae'r hen beiriannau wedi cael eu disodli gan unedau cyfunol, a elwir yn Ddyfeisiadau Amlswyddogaethol (MFD Multifunctional Devices). Mae nifer fawr o'r rhain yn cynnig copïau du-a-gwyn a lliw, ac mae pob un yn darparu papur maint A3. Dim ond un cwota sydd ei angen arnoch ar gyfer unrhyw gyfuniad o gopïo, argraffu, du-a-gwyn, lliw, A4, A3. Mae cardiau credyd a'r peiriannau casglu arian newydd (*valueloaders*) yn darparu credyd ar unwaith ar gyfer yr holl gyfuniadau hyn. Mae hyn oll yn dangos newid sylweddol i'n gwasanaethau argraffu a llungopïo, ac er ein bod yn hyderus y bydd y gwasanaeth yn llawer gwell, rydym yn croesawu adborth ar y newidiadau, boed hynny o'u plaid neu yn tynnu sylw at unrhyw broblemau.

Am fwy o wybodaeth gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/computing/printing.asp

Jeremy Perkins, Isgyfarwyddwr Gwasanaethau Canolog TG (jwp@aber.ac.uk)

AberListMan

Dros yr haf, bu'r Tîm Systemau yn datblygu meddalwedd rheoli rhestri postio i gymryd lle Majordomo, hen feddalwedd y Brifysgol. Mae'r meddalwedd newydd hwn, 'AberListMan' yn cynnig yr agweddau gorau ar Majordomo mewn cyfres o dudalennau gwe sy'n hawdd eu defnyddio.

Mae AberListMan yn caniatáu i chi:

1) weinyddu eich rhestr drwy eich enw defnyddiwr a chyfrinair Prifysgol safonol;
2) weld pob rhestr bostio sy'n eiddo i chi;
3) weld y rhestri postio rydych yn rhan ohonyn nhw;
4) olygu disgrifiadau eich rhestr bostio a gosod eich dyddiadau golygu eich hun;
5) dderbyn e-bost i'ch rhestr a ffeiliau mawr ynghlwm wrthynt;
6) ddirprwyo gweinyddu'r rhestr i ddefnyddwyr eraill;
7) weinyddu rhestr heb orfod bod yn aelod ohoni;
8) gyfyngu ar bwy all anfon i'ch rhestr bostio.

Mae gennym dudalen we lle ceir gwybodaeth am y system newydd: http://www.inf.aber.ac.uk/advisory/cymraeg/faq/23/

Gallwch gael mynediad i AberListMan ar: http://www.inf.aber.ac.uk/advisory/cymraeg/faq/247/

Rydym yn croesawu adborth ar y gwasanaeth newydd – anfonwch eich sylwadau at Cynghori (advisory@aber.ac.uk).

Matthew Fullwood, Tîm Cynnal Systemau (mtf@aber.ac.uk)

Cyfleuster Newydd i Ddychwelyd Llyfrau yn Llyfrgell Hugh Owen

Wrth gerdded i mewn i Lyfrgell Hugh Owen mae'n anodd peidio â sylwi ar ein peiriant newydd ar gyfer dychwelyd llyfrau, y cyfeirir yn annwyl ato gan staff y llyfrgell fel 'Y Bwystfil'. Mae'r cyfleuster newydd hwn yn caniatáu i chi ddychwelyd eich benthyciadau a'u rhyddhau o'ch cyfrif llyfrgell. Bydd derbynneb sy'n rhestru teitlau'r eitemau sy'n cael eu dychwelyd yn cael ei hargraffu – dylech gadw hon yn eich ffeil fel prawf eich bod wedi dychwelyd yr eitem i'r llyfrgell.

Heb i chi sylwi arno, mae'r peiriant hwn yn clustnodi deunydd sydd wedi cael ei alw yn ôl, neu sydd ar gadw, ar gyfer gweithredu ar unwaith, ac yn didoli deunydd i wahanol drolïau ar sail lleoliad y llyfrau yn y llyfrgell. Mantais fawr arall yw bod y peiriant dychwelyd llyfrau yn ailgychwyn y mecanwaith diogelwch sydd yn y llyfr yn awtomatig – gorchwyl y bu'n rhai i'r staff ei gyflawni eu hunain gynt.

Mae'r system newydd eisoes yn boblogaidd gyda defnyddwyr a bydd yn cyflymu'r broses o ddychwelyd eitemau i'r silffoedd ar gyfer benthycwyr eraill. Mae'r peiriannau hunanfenthyca sydd wedi cael eu gosod wrth y cownter bellach yn delio â thua 60% o'r llyfrau sy'n cael eu benthyg, a'n bwriad yw awtomeiddio'r rhan fwyaf o'r broses benthyca a dychwelyd yn y pen draw, gan ryddhau aelodau staff i wneud gwaith arall. Os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r cyfleuster newydd hwn, bydd staff y llyfrgell yn fwy na pharod i'ch cynorthwyo.

Christiane Kloos, Swyddog Systemau Llyfrgell (cek@aber.ac.uk)

Adnoddau Electronig Newydd

Rydym yn awr yn tanysgrifio i'r adnoddau canlynol:

- *PsycARTICLES*, trwy gyfrwng CSA
- Pecynnau Gwyddor Ymddygiad (Seicoleg) a Ffiseg (egyfnodolionTaylor & Francis)
- *British Psychological Society* (egyfnodolion)
- JSTOR – casgliad Celf a Gwyddoniaeth V newydd
- *Archive of Celtic-Latin Literature Online* (ACLL) a ychwanegwyd at gasgliad bas data Brepolis
- *Keesing's Record of World Events*
- Archif *Landmap Service* drwy gyfrwng y *National Grid Service* (NGS)
- *International Medieval Bibliography Online* ychwanegwyd at gasgliad bas data Brepolis
- *Nature, Nature Materials and Nature Physics* nawr ar gael ar ffurf electronig
- *Schirmer Encyclopedia of Film* (elyfr)
- *American Institute of Physics* (AIP) (egyfnodolion)
- *American Chemical Society* (ACS) (egyfnodolion)

Am fwy o wybodaeth am y rhain, ac adnoddau ar-lein eraill, gweler ein tudalen Newyddion Diweddaraf ar:
http://www.inf.aber.ac.uk/elecinfo/einews.asp

Botymau Mewngofnodi Athens Newydd

Mewngofnodi @ Aber

O ganlyniad i newid enw'r sefydliad a dyfodiad systemau dilysu newydd, rydym wedi newid ein botymau mewngofnodi Athens melyn.

Sandra Morris, Swyddog Datblygu Gwybodaeth Electronig (ssm@aber.ac.uk)

Sharepoint ym Mhrifysgol Aberystwyth

Mae SharePoint yn system we sy'n caniatáu cydweithio a rheoli dogfennau. Ymhlith y nodweddion cydweithio ceir rhannu calendr, tasgau, cysylltiadau a byrddau trafod. Ymhlith y nodweddion rheoli dogfennau ceir fersiynau, copi wrth gefn, mynediad diogel a chael mynediad i ddogfennau dros y we. Mae'n integreiddio'n agos â rhannau o Microsoft Office megis Outlook a Word. Mae SharePoint hefyd yn cynnig technoleg cydweithio "Web 2.0" megis blogs a wikis.

Gellir defnyddio SharePoint i:

- Storio, rhannu a chydweithio ar ddogfennau
- Rhannu cysylltiadau, tasgau a chalendrau
- Rheoli prosiectau, timau a chyfarfodydd
- Rhannu syniadau a datblygiadau drwy gyfrwng blog
- Casglu gwybodaeth yn hawdd a chydweithio drwy ddefnyddio wikis

Cynllun peilot yw SharePoint ar hyn o bryd. Mae'n cael ei ddefnyddio gan Wasanaethau Gwybodaeth (GG) i reoli prosiectau a dogfennau cyfarfodydd. Mae GG hefyd yn cynnal safle SharePoint sy'n cael ei ddefnyddio gan Prosiect Cynnal Cadwrfa. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i storio dogfennau a chynnal amryw bwyllgorau ar lefel y Brifysgol. Mae Grŵp Diddordeb SharePoint yn cael ei greu ar gyfer staff sydd â diddordeb mewn defnyddio SharePoint a/neu hoffai ddod yn rhan o'r cynllun peilot.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp, cysylltwch â tim.davies@aber.ac.uk.

Adnewyddu Cyfrifiaduron Gwasanaeth Cyhoeddus

Yn dilyn proses dendro fechan trwy gytundeb fframwaith pendesg IRDA, mae GG wedi sicrhau 550 cyfrifiadur DELL i gymryd lle'r hen stoc o gyfrifiaduron oedd yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cwmpasu ystafelloedd ar draws y campws sy'n cael eu hamserlenni'n ganolog, ystafelloedd y gellir eu bwcio a rhai na ellir eu bwcio. Mae'r cyfrifiaduron newydd hyn yn dod â nifer o fanteision i Brifysgol Aberystwyth, gan gynnwys:

- Perfformiad: Perfformiad llawer gwell. Mae hyn yn cael gwared â'r logio arno araf ac yn ein galluogi i gynnal y meddalwedd diweddaraf.
- Monitorau: Monitorau 19" ac 20" sgrin wastad y gellir addasu eu huchder a'u troi.
- Gofod ar y Byrddau Gwaith: Lleihad yn golygu mwy o le i lyfrau, nodiadau etc. Dyma un o'r ceisiadau cyson ar arolygon myfyrwyr.
- Cysondeb: Mae cael cysondeb caledwedd yn ei gwneud hi'n haws i GG eu cynnal a'u cadw.
- Estheteg: Mae'r cyfrifiaduron a'r monitorau newydd yn edrych yn llawer gwell ac yn dangos bod Prifysgol Aberystwyth yn buddsoddi yn ei darpariaeth TG.
- Arbed Ynni: Mae'r cyfrifiaduron a'r monitorau newydd yn defnyddio llai o ynni na'r hen offer ac yn ein galluogi i weithredu cynlluniau arbed ynni.
- Vista: Mae'r offer newydd yn cynnal Microsoft Windows Vista yn llwyr.

Tim Davies, Rheolwr Systemau Pendesg (tid@aber.ac.uk)

Prisiau Newydd Benthyciadau Rhyng-lyfrgellol

Mae Canolfan Cyflenwi Dogfennau y Llyfrgell Brydeinig wedi codi'r taliadau am ddeunydd drwy'r gwasanaeth Benthyciadau Rhyng-lyfrgellol. Mae'r costau newydd, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2007, fel a ganlyn:

- Llyfrau £8.05
- Llungopïau £5.25
- Adnewyddu £3.10

Tîm Golygyddol

Elgan Davies (epd), Laurence Dupont (lrd), Mary Green (mcg), Jacqui Kenton (jck), Christine Hughes (cmh), Dermot Ryan (drr), Jackie Woollam (jaw), Kate Wright (kaw).

Gwasanaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DZ.

Cyhoeddir NEWYDDION GG yn rhad ac am ddim gan Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Croesewir eich sylwadau a'ch syniadau. Os nad ydych wedi derbyn copi personol ohono ac y dymunwch gael un yn y dyfodol, gellir ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu drwy gysylltu â'r Golygydd (epd@aber.ac.uk).